

Polisi dros dro AGGCC ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau diogelu

Cynnwys

Cyflwyniad	2
1. Egwyddorion a dull.....	2
2. Rôl AGGCC	3
3. Rhannu gwybodaeth	4
4. Atgyfeirio pryder at yr awdurdod lleol	4
5. Atgyfeirio pryderon amryfal cysylltiedig ag un lleoliad	5
6. Ymateb i ymholiadau sy'n cyrraedd oddi wrth awdurdod lleol	6
7. Penderfyniad i fynychu cyfarfod strategaeth	6
8. Mynychu cyfarfodydd/cynadleddau diogelu	7
9. Gweithio ochr yn ochr â'r heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a chyrrff gorfodi eraill mewn ymchwiliadau cymhleth	8
10. Uwchgyfeirio pryderon	8

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu polisi Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) mewn perthynas ag arferion diogelu. Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen (mis Mai 2017), mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar godau ymarfer, sy'n cynnwys cynnal ymchwiliadau diogelu, ac mae wedi comisiynu'r gwaith o ddatblygu canllawiau ymarfer Cymru gyfan ar gyfer diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl, a fydd yn debygol o fod yn barod yn 2019. Mae'r polisi hwn, felly, yn fesur dros dro, a chydag amser bydd yn cael ei adolygu yng ngolau'r codau ymarfer a chanllawiau ymarfer Cymru gyfan.

1. Egwyddorion a dull

- 1.1 Cadw pobl yn ddiogel.** Sicrhau bod diogelwch, llesiant a hawliau pobl wrth galon y modd yr ydym yn rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth. Rydym bob amser yn bwriadu gwirio bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau o'r fath yn cael eu gwarchod a'u hamddiffyn yn gywir.
- 1.2 Gwrando ar bobl.** Rydym yn cymryd gofal i wrando ar bobl sy'n derbyn gofal a chefnogi eu teuluoedd, i ddeall eu pryderon a'u dymuniadau.
- 1.3 Bod yn wylidwrus a rhagweithiol.** Rydym yn wylidwrus a rhagweithiol yn ein dull o ddiogelu, ac rydym yn cydnabod ac yn cymryd camau mewn ymateb i arwyddion bod pobl yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol. Rydym bob amser yn wylidwrus am yr angen i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl rhag esgeulustod, camdriniaeth ac ecsbloetiaeth.
- 1.4 Ymateb mewn modd cymesur.** Rydym yn ymateb i bryderon diogelu posibl mewn modd sy'n gymesur â'r perygl o niwed a difrifoldeb y perygl hwnnw. Rydym yn cymryd i ystyriaeth ffynhonnell ac ansawdd y wybodaeth sy'n arwain at y pryder.
- 1.5 Gweithio'n agos gyda phartneriaid.** Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n rhannu cyfrifoldeb statudol dros ddiogelwch pobl. Rydym yn gweithio gyda darparwyr hefyd i sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol i amddiffyn pobl sydd mewn perygl rhag niwed, waeth beth fo'u hoedran.
- 1.6 Cadw gofynion amddiffyn data.** Rydym yn deall ac yn parchu egwyddorion amddiffyn data. Wrth rannu gwybodaeth gysylltiedig â diogelu, rydym yn gwneud hynny mewn modd sy'n diwallu gofynion statudol ac sy'n cydymffurfio â phrotocolau rhannu gwybodaeth rhwng AGGCC a'i hasiantaethau partner.

2. Rôl AGGCC

2.1 Rôl sylfaenol AGGCC, fel rheoleiddiwr gwasanaethau gofal a chymorth, yw sicrhau bod gwasanaethau a reoleiddir yn addas i weithredu, yn cydymffurfio â rheoliadau, ac yn darparu gofal diogel o ansawdd da nad yw'n rhoi pobl mewn perygl o esgeulustod, camdriniaeth neu ecsbloetiaeth.

2.2 Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles y bobl sy'n eu defnyddio. Rydym yn gwirio bod gwasanaethau a reoleiddir yn cynnal ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer darparu gofal diogel o ansawdd da, ac ar gyfer amddiffyn y bobl hynny sydd yn eu gofal rhag niwed.

2.3 Pan fyddwn, wrth gwblhau ein gwaith rheoleiddiol, yn nodi neu'n cael ein hysbysu, boed yn ffurfiol ai peidio, am bryder ac mae gennym achos rhesymol dros gredu bod plentyn, person ifanc neu oedolyn yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef esgeulustod, camdriniaeth neu ecsbloetiaeth, rydym yn atgyfeirio'r pryder at yr awdurdod lleol ar unwaith neu o fewn 24 awr.

2.4 Rydym yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol yng nghamau cychwynnol unrhyw ymchwiliad, er mwyn deall unrhyw oblygiadau rheoleiddiol ar gyfer y gwasanaeth dan sylw. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y pryder yn codi materion ehangach ynghylch y modd y caiff y gwasanaeth hwnnw ei redeg neu'n dangos methiant o ran darparu gofal. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau strategaeth, fel arfer dros y ffôn, i benderfynu a oes angen i AGGCC fynychu cyfarfodydd strategaeth.

2.5 Pan ellir ei gyfiawnhau oherwydd goblygiadau rheoleiddiol, rydym yn bwriadu mynychu cyfarfodydd strategaeth cychwynnol. Gwerthfawrogir ein presenoldeb a'n cyfraniadau. Os nad ydym yn gallu mynychu, yna mae'n rhaid i ni rannu gwybodaeth berthnasol, esbonio ein bwriadau, sicrhau ein bod yn cael adroddiad llawn ar ôl y cyfarfod, a, lle bo'n angenrheidiol, adolygu ein camau gweithredu arfaethedig.

2.6 Byddwn yn barod i gyflawni arolygiad fel rhan o ymchwiliad ehangach os byddwn ag achos rhesymol dros ddrwgdybio bod methiant wedi bod o ran gofal, bod y gwasanaeth yn anniogel, a bod rheoliadau wedi cael eu torri. Rydym yn darparu adborth cynnar i'r awdurdod lleol am ein canfyddiadau.

2.7 Rydym yn sicrhau ein bod yn cael ein hysbysu am ganlyniadau ymchwiliadau asiantaethau eraill, ac rydym yn ystyried unrhyw oblygiadau rheoleiddiol sy'n deillio ohonynt. Mewn sefyllfaoedd cymhleth, mae'n briodol i ni fynychu cyfarfodydd strategaeth pellach. Rydym yn mynychu cynadleddau achos pan fo pryderon heb eu datrys am ddarparwr.

3. Rhannu gwybodaeth

3.1 Rydym yn trin gwybodaeth bersonol a sensitif mewn perthynas â diogelu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AGGCC a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain wedi'u llunio i sicrhau diogelwch gwybodaeth o'r fath. Mae hyn yn cynnwys dulliau priodol o reoli cofnodion a thrin gwybodaeth.

3.2 Wrth drosglwyddo gwybodaeth sensitif i asiantaeth bartner mewn perthynas â diogelu, rydym yn dilyn prosesau i sicrhau bod y wybodaeth yn dod o fewn cwmpas y cytundeb rhannu gwybodaeth perthnasol, ei bod wedi'i labelu â marcïau diogelwch priodol, a'i bod yn aros yn ddiogel drwy gydol y broses drosglwyddo.

3.3 Gellir cyfiawnhau rhannu gwybodaeth gyfrinachol heb gydsyniad er lles y cyhoedd fel arfer pan fo achos rhesymol dros gredu bod unigolyn yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol, neu pan fyddai rhannu'r wybodaeth yn helpu i atal unigolyn rhag cael ei niweidio'n sylweddol.

3.4 Byddwn yn rhannu canfyddiadau cynnar arolygiadau sy'n berthnasol yn uniongyrchol i bryderon diogelu. Efallai y byddwn yn gwneud hyn cyn cyhoeddi adroddiad drafft. Byddwn wedi darparu adborth ar adeg yr arolygiad a dylem grybwyll unrhyw anghytuno neu sylwadau perthnasol a wnaed gan y sawl sy'n rhedeg y gwasanaeth.

4. Atgyfeirio pryder at yr awdurdod lleol

4.1 Yr awdurdod lleol yw'r asiantaeth arweiniol sy'n gyfrifol am ymchwilio i bryderon diogelu, ac sy'n cydlynu unrhyw gyfraniadau gan AGGCC ac asiantaethau eraill. Nod yr awdurdod lleol yw amddiffyn pobl rhag niwed uniongyrchol a lleihau'r perygl o niwed yn y dyfodol. Os drwgdybir trosedd difrifol, yn aml bydd yr heddlu yn cymryd yr awenau fel yr asiantaeth arweiniol.

4.2 Rydym yn atgyfeirio pryder at yr awdurdod lleol pan fyddwn yn asesu bod achos rhesymol dros ddrwgdybio bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd neu fod perygl y gall camdriniaeth neu esgeulustod ddigwydd. Mae "achos rhesymol" yn golygu bod seilïau cyfreithlon dros gredu rhywbeth.

4.3 Rydym yn archwilio ac yn profi achosion rhesymol trwy ein prosesau cymeradwy ar gyfer cynnal arolygiadau ac ymateb i bryderon. Trwy gydol y prosesau hyn, rydym yn casglu ac yn asesu tystiolaeth mewn modd systematig. Mae'r penderfyniadau a'r camau canlyniadol yn gadarn ac yn cael eu cofnodi.

4.4 Rydym yn asesu achosion rhesymol mewn modd cyfrifol a chymesur, ac rydym yn arfer doethineb i osgoi gorlwytho awdurdodau lleol â phryderon afraid. Nid yw gofal gwael o reidrwydd yn gydradd â chamdriniaeth neu esgeulustod ac nid yw'n diwallu'r angen ar gyfer atgyfeirio oni ddrwgdybir niwed sylweddol (plant

mewn perygl) neu niwed difrifol (oedolion mewn perygl) neu oni thybir bod y fath niwed yn debygol. Pan fo'n ddefnyddiol, gallwn drafod pryder â'r awdurdod lleol cyn gwneud atgyfeiriad ffurfiol. Os oes amheuaeth, rydym bob amser yn gwneud atgyfeiriad ffurfiol.

4.5 Mae ffactorau sy'n cyfrannu at ein hasesiad o achos rhesymol yn cynnwys: bregusrwydd y sawl sydd mewn perygl; yr effaith ar ei iechyd, llesiant a hawliau dynol; a chryfder y dystiolaeth. Rydym yn ystyried a yw'r pryder yn seiliedig ar gyfrif uniongyrchol, a yw'n bryder mynych neu gyffredinoledig, ac a yw'n cynnwys honiad penodol.

4.6 Mae'r angen ar gyfer gwneud atgyfeiriad ffurfiol yn cael ei bennu fesul achos yn unol â deddfwriaeth, egwyddorion a chanllawiau, ac yn ôl yr amgylchiadau unigol. Efallai na fydd pryder ar ei olwg yn cyrraedd yr angen ar gyfer atgyfeirio, ond mae'n bosibl y bydd yn croesi'r angen hwnnw yn ddiweddarach, yng ngolau gwybodaeth a geir trwy ymchwiliadau pellach neu arolygiad.

4.7 Rydym yn adolygu'n barhaus pa mor dda rydym yn deall ac yn cymhwyso'r prawf o achos rhesymol, ac rydym yn rhannu'r dysgu hwnnw ymhlith y sefydliad trwy hyfforddiant rheolaidd a chanllawiau ysgrifenedig, i annog arfer cyson. Mae ein canllawiau i staff – sy'n cael eu diweddarau'n achlysurol – yn rhoi diffiniadau seiliedig ar y gyfraith am "oedolyn mewn perygl" a "phlentyn mewn perygl", yn disgrifio categorïau camdriniaeth ac esgeulustod, ac yn darparu enghreifftiau ymarferol o sefyllfaoedd sy'n mynnu atgyfeiriad.

5. Atgyfeirio pryderon amryfal cysylltiedig ag un lleoliad

5.1 Ar hyn o bryd, mae gweithdrefnau diogelu oedolion yn canolbwyntio ar bryderon ar gyfer pobl unigol. Ar gyfer AGGCC, fodd bynnag, mae ein pryderon mwyaf difrifol yn aml yn codi oherwydd esgeulustod cyffredin o fewn cartrefi gofal sy'n methu, lle mae llawer o bobl mewn perygl. Dan yr amgylchiadau hyn, yn hytrach na gwneud nifer o atgyfeiriadau oedolyn mewn perygl ar wahân, gallwn wneud atgyfeiriad sengl ar gyfer y lleoliad.

5.2 Pan fo methiant systemig mewn lleoliad gofal i oedolion sy'n rhoi tri neu fwy o unigolion mewn perygl, rydym yn gwneud atgyfeiriad sengl ar gyfer y lleoliad. Pan ydym yn credu bod nifer y bobl sydd mewn perygl yn llai na thri, yna rydym yn gwneud atgyfeiriadau unigol.

5.3 Gan nad yw'r ffurflenni atgyfeirio unigol (e.e. VA1) yn addas ar gyfer atgyfeiriadau ar gyfer lleoliad, rydym yn defnyddio profforma syml yn lle'r rhain, lle'r ydym: yn amlinellu'r rheswm dros y pryder, yn nodi unrhyw unigolion mewn perygl penodol, ac yn eitemeiddio elfennau'r perygl sy'n effeithio ar bob un o'r unigolion hynny.

5.4 Yna, gall yr awdurdod lleol bennu sut y bydd yn ymdrin â'r atgyfeiriad, boed trwy lwybr unigol neu lwybr ar gyfer y lleoliad cyfan.

5.5 Mae gan dimau diogelu plant system ddiffiniedig ar gyfer ymateb i honiadau o gamdriniaeth broffesiynol, a dylid cymhwyso'r gweithdrefnau perthnasol. Fodd bynnag, gellir cymhwyso'r dull a amlinellwyd uchod hefyd pan fo methiannau systemig mewn gwasanaethau i blant a phan fônt yn rhoi llawer o blant neu gyfres o blant mewn perygl o gamdriniaeth, a defnyddir yr un profforma.

6. Ymateb i ymholiadau sy'n cyrraedd oddi wrth awdurdod lleol

6.1 Pan fyddwn yn derbyn ymholiadau, byddwn yn eu cofnodi ac yn eu trin fel "pryderon". Yna, byddwn yn casglu gwybodaeth ac yn cynnal dadansoddiad yn unol â'n polisi a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i bryderon. Byddwn yn ystyried y brys a'r perygl, ac yn penderfynu pa gamau i'w cymryd.

6.2 Os yw'r pryder dan sylw yn dangos materion sy'n berthnasol i reoliadau, h.y. problemau gyda'r gwaith o redeg y gwasanaeth, yna mae'n debygol y bydd rôl i ni o ran cynorthwyo'r awdurdod lleol â'i ymchwiliadau. Pan nad yw'r pryder yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o redeg gwasanaeth, yna mae'n bosibl na fyddwn ynghlwm wrth yr ymchwiliadau.

6.3 Pan fo unrhyw bryder yn dangos pryderon difrifol, mynych neu systemig ynghylch y gwaith o redeg y gwasanaeth, rydym yn debygol o benderfynu cynnal arolygiad cynnar a chymryd rhan mewn cyfarfodydd diogelu a chyfrannu at y cynllun gweithredu.

6.4 Pan fo unrhyw bryder yn dangos peryglon uniongyrchol a mawr i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn ymateb ar frys, fel arfer gan gynnal arolygiad ar unwaith i asesu a yw'r gwasanaeth wedi dangos bod angen i AGGCC gymryd camau brys, cyfreithiol. Rydym yn cynghori ac yn ymgynghori â'r awdurdod lleol hefyd (a'r heddlu os yw'n berthnasol) ynghylch ein bwriadau.

7. Penderfyniad i fynychu cyfarfod strategaeth

7.1 Cyn penderfynu p'un ai mynychu cyfarfod strategaeth ai peidio, rydym yn siarad â'r awdurdod lleol er mwyn cael dealltwriaeth ragarweiniol o'r problemau, a ffurfio safbwynt o ran y camau i'w cymryd.

7.2 Dyma ein hamcanion ar gyfer mynychu cyfarfod strategaeth:

- cael goleuni ynglŷn â'r hyn a honnir yn union a sut y mae pobl wedi ymateb
- casglu gwybodaeth am y modd y mae pobl yn ymateb, yn arbennig y darparwr/rheolwr
- gallu trafod ac integreiddio unrhyw gamau rydym yn bwriadu eu cymryd ag asiantaethau eraill

- cael y cyfle i ddarparu gwybodaeth berthnasol sydd gennym ar gyfer yr awdurdod lleol
- gallu cefnogi penderfyniadau asiantaethau eraill trwy ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rôl y mae AGGCC yn ei chwarae.

Os ydym yn gallu cyflawni (neu eisoës wedi cyflawni) yr amcanion hyn heb fod yn bresennol, yna mae mynychu'r cyfarfodydd yn mynd yn llai o flaenoriaeth.

7.3 Yn gyffredinol, rydym yn mynychu os yw un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

- mae'r pryderon yn ddifrifol ac yn dangos bod methiannau difrifol neu systematig wedi bod o ran y gofal neu'r gwaith o redeg y gwasanaeth
- mae'r wybodaeth sydd ar gael yn gymhleth ac aneglur
- bydd angen ymchwiliad cyd-drefnus, amlhaenog
- mae ansicrwydd ymhlith asiantaethau mewn perthynas â'r wybodaeth sydd ar gael a'r camau i'w cymryd.

7.4 Yn gyffredinol, nid ydym yn mynychu os yw un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

- rydym wedi cadarnhau nad yw'r pryderon yn ddifrifol neu'n systemig
- mae cynllun effeithiol eisoës ar waith i reoli risgiau
- rydym yn hyderus yng ngallu'r gwasanaeth i unioni unrhyw ddiffygion.

Os gellir cyflawni'r canlyniadau hyn heb bresenoldeb personol AGGCC, yna mae mynychu yn mynd yn llai o flaenoriaeth.

7.5 Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig rhannu gwybodaeth ac aros yn gyfredol â chynnydd ymchwiliad diogelu. Os yw gwybodaeth ddiweddarach yn awgrymu bod pryderon ynglŷn â gwasanaeth yn fwy sylweddol na phan gawsant eu cyflwyno yn gyntaf, yna efallai y byddwn yn newid ein safiad o ran mynychu cyfarfodydd.

8. Mynychu cyfarfodydd/cynadleddau diogelu

8.1 Fel arfer, cynhelir cyfarfod i derfynu ymchwiliad (yn nodweddiadol cyfarfod strategaeth wedi'i ailgynnull ar gyfer oedolion a chynhadledd achos ar gyfer plant) ac i gytuno ar gynllun tymor hir i amddiffyn pobl pe bai angen. Gall gwybodaeth sy'n codi o ymchwiliad, ac a gyflwynir yn y cyfarfod, fod yn werthfawr ar gyfer ein dealltwriaeth o'r modd y mae gwasanaeth yn perfformio. Mae'n bosibl, felly, y byddwn yn dymuno mynychu i ofyn cwestiynau yn bersonol, neu efallai y byddwn yn cyflwyno ein canfyddiadau ein hunain i gynorthwyo'r gynhadledd.

8.2 Yn gyffredinol, rydym yn bwriadu mynychu cyfarfodydd diogelu dan yr amgylchiadau canlynol:

- os cynhaliwyd ymchwiliad i fethiant difrifol o ran gofal
- os ydym yn dymuno deall neu gwestiynu canfyddiadau ymchwiliad
- os yw'r methiant wedi bod yn systemig
- os yw'n debygol bod rheoliad wedi cael ei dorri
- os ydym yn cymryd neu'n ystyried cymryd camau gorfodi.

8.3 Yn gyffredinol, nid ydym yn mynychu os nad yw peryglon wedi cael eu cyfiawnhau neu os ydym yn fodlon bod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd gan y darparwr.

8.4 Wrth fynychu cyfarfodydd, byddwn yn gyfranwyr gweithredol, yn barod i gyfrannu fel gweithwyr proffesiynol ac fel rheoleiddiwr, ac yn fodlon cwestiynu canfyddiadau neu gynigion os ydym yn credu nad ydynt yn gywir.

8.5 Rydym yn canlyn argymhellion a wnaed i ddarparwyr yn ystod ein harolygiadau.

9. Gweithio ochr yn ochr â'r heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a chyrrff gorfodi eraill mewn ymchwiliadau cymhleth

9.1 Mewn ymchwiliadau cymhleth pan fo achosion troseddol yn cael eu canlyn, bydd y prosesau gorfodi'r gyfraith yn cael eu rheoli ar wahân i'r prosesau diogelu. Rhaid cynnal cyswllt rhwng y ddwy set o brosesau, fodd bynnag, am ei bod yn dal i fod yn angenrheidiol rheoli'r peryglon parhaus i ddiogelwch, llesiant a hawliau dynol pobl.

9.2 Mae AGGCC a'r heddlu yn llofnodwyr Protocol Marwolaeth yn Gysylltiedig â Gwaith yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r protocol yn amlinellu'n fras yr egwyddorion a'r prosesau ar gyfer cynnal ymchwiliadau o'r fath, ac yn cynnwys y cysyniad "uchafiaeth", pan fydd un asiantaeth (fel arfer yr asiantaeth â'r diddordeb/pwerau gorfodi mwyaf) yn cymryd yr awenau o ran rheoli, cydlynu ac adolygu'r ymchwiliad yn barhaus. Mae cymorth i ddioddefwyr a pherthnasau, cysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron ac ymdrin â'r cyfryngau'n ffurfio rhan o'r ystyriaethau cynllunio.

9.3 Dylai AGGCC bob amser ystyried y cyfle i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn ystod y camau casglu ffeithiau ac ymchwilio, er enghraifft trwy gasglu tystiolaeth a chyfweld â thystion ar y cyd.

10. Uwchgyfeirio pryderon

10.1 Mae'r broses uwchgyfeirio pryderon, y mae'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda darparwr yn ei sgil i wella gwasanaeth gofal sydd mewn perygl o fethu, yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd sydd yn aml yn rhedeg ochr yn ochr â gweithdrefnau diogelu. Gall fod gorgyffwrdd sylweddol rhwng y ddwy broses am

fod y ddwy'n cynnwys rheoli peryglon cynhenid o fewn gwasanaethau gofal sy'n methu.

10.2 Mae camau gorfodi a bwriadau AGGCC yn berthnasol i'r asiantaethau sy'n arwain y broses uwchgyfeirio pryderon. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cymylu o ran rolau ac amcanion pan fydd AGGCC yn mynychu cyfarfodydd uwchgyfeirio pryderon. Nid yw'n angenrheidiol i ni fynychu cyfarfodydd o'r fath os ydym eisoes yn hollol eglur ynghylch camau asiantaethau eraill a'u hasesiad o'r gwasanaeth gofal dan sylw ac os yw'r awdurdod lleol yn eglur ynghylch canlyniad ein gweithgarwch a'n prosesau a'n bwriadau.

10.3 Ar y llaw arall, os oes buddion arbennig i'w rhannu neu gyfraniadau penodol i'w gwneud, neu os byddai'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi'n arbennig ein presenoldeb neu os oes angen cydlynu gweithgarwch yn dilyn penderfyniad i gau neu ganslo gwasanaeth, yna mae'n bosibl y byddwn yn dewis mynychu'r cyfarfodydd, neu fynychu'n rhannol.

10.4 Pan fo gwasanaeth gofal yn methu, mae'n bosibl y bydd atgyfeiriadau ac ymchwiliadau amryfal, gorgyffyrddol, dilyniannol yn cael eu cynhyrchu yn ogystal â chyfarfodydd uwchgyfeirio pryderon. Gall hyn fod yn dreth fawr ar adnoddau'r holl asiantaethau, a gall fod yn dreth ar AGGCC wrth iddi fod ar y safle yn y gwasanaethau gofal dan sylw. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, efallai y byddai'n well trafod â'r awdurdod lleol adolygiad cyfnodol (e.e. misol) o'r pryderon diogelu, a fydd yn cynnwys cyfarfodydd strategaeth newydd ac yn rhoi diweddariadau ar bryderon sydd ohoni.

Atodiad

Profforma AGGCC

Ffurflen atgyfeirio lleoliad ar gyfer oedolion/plant sydd mewn perygl

Hollol gyfrinachol: Anfonir yn ddiogel

Enw a chyfeiriad y lleoliad gofal:	
Rheolwr:	Rhif ffôn:
Enw'r arolygydd:	
E-bost:	Rhif ffôn:
Dyddiad atgyfeirio:	
Cefndir y gwasanaeth:	
Cefndir a natur y pryderon diogelu:	
A yw'r darparwr/rheolwr yn ymwybodol o'r atgyfeiriad hwn?: Y/N Sylw:	
Y camau mae AGGCC yn bwriadu eu cymryd:	
Sylwadau (gan gynnwys unrhyw gamau rydych yn gofyn i'r awdurdod lleol eu hystyried, asiantaethau cysylltiedig eraill):	

Pan fo unigolion yn destun/wedi bod yn destun camdriniaeth neu esgeulustod penodol ac yn haeddu ymchwiliad unigol, cwblhewch y manylion isod a **sicrhewch fod pob unigolyn yn cael ei gofnodi ar daflenni ar wahân**. Bydd hyn yn helpu'r awdurdodau lleol i reoli data personol.